**ADRODDIAD I'R CABINET**
14 Chwefror 2017

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc:** Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch Y Berwyn

**Swyddog Cyswllt:** Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Argymhelliad**

Argymhellir ymgynghori â chyrff llywodraethu ysgolion dalgylch Y Berwyn ar yr opsiwn i dynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala yn ei ôl, yn unol ag adran 55 (5) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 - gyda'r bwriad o ddychwelyd i'r Cabinet i adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad a chynnig argymhellion ar y ffordd ymlaen.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio caniatâd y Cabinet i ail ymweld â'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala yn sgil y trafodaethau diweddar a fu rhwng swyddogion Cyngor Gwynedd, Esgobaeth Llanelwy, Llywodraethwyr dalgylch y Berwyn ac Aelodau Lleol.

1.2 Cyflwynwyd adroddiad ger bron y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2016 i geisio caniatâd y Cabinet "i ymgynghori â chyrff llywodraethu ysgolion dalgylch Y Berwyn ar yr opsiwn i dynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir" yn ei ôl. Yn eu cyfarfod, penderfynodd y Cabinet oedi'r penderfyniad er mwyn rhoi amser i ystyried y farn gyfreithiol ynglŷn â safiad diweddaraf yr Esgobaeth, yn ogystal â rhoi cyfle i swyddogion drafod y mater yn lleol gyda Llywodraethwyr y dalgylch.

1.3 Dychwelir y mater i'r Cabinet i ail ystyried y sefyllfa yng nghyd-destun y datblygiadau diweddaraf.

**2. CEFNDIR**

2.1 Cyflwynwyd adroddiad ger bron y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2016 yn argymell:

> *"...ymgynghori â chyrff llywodraethu ysgolion dalgylch Y Berwyn ar yr opsiwn i dynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala yn ei ôl, yn unol ag adran 55 (5) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 - gyda'r bwriad i ddychwelyd i'r Cabinet ym mis Ionawr 2017 i adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad a chynnig argymhellion o ran y ffordd ymlaen."*

2.2 Cyflwynwyd yr adroddiad mewn ymateb i ohebiaeth, dyddiedig 9 Medi 2016, gan gyfreithiwr Esgobaeth Llanelwy ynglŷn â phrosiect Y Berwyn. Yn gryno, fe ddatganwyd yn y llythyr na fydda hi'n bosib i'r Esgobaeth gefnogi'r cynnig yn ei ffurf bresennol am nad ydynt yn derbyn ei fod yn briodol nac yn gyfreithiol bosib i'r Cyngor, nac unrhyw Awdurdod Lleol arall, weithredu fel hyrwyddwr ar gyfer cynnig i sefydlu ysgol wirfoddol gyda chymeriad crefyddol. Roedd yr Eglwys yng Nghymru yn gwrthwynebu'n gryf y cysyniad a'r ddarpariaeth yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac yn dadlau nad yw'n briodol nac yn gyfreithiol bosib i'r Cyngor, nac unrhyw Awdurdod Lleol arall, weithredu fel hyrwyddwr ar gyfer cynnig i sefydlu ysgol wirfoddol gyda chymeriad crefyddol. Yn ogystal, nododd Esgobaeth Llanelwy yr angen i Ysgol Beuno Sant fod yn rhan o gynlluniau'r Campws Dysgu er nad oedd wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad statudol.

2.3 Llythyrwyd yr Esgobaeth ar 15 Tachwedd 2016 i'w hysbysu o fwriad y Cyngor i drafod y mater mewn cyfarfod o'u Cabinet ym mis Rhagfyr. Yn dilyn hynny, ar 12 Rhagfyr, bu cyfarfod rhwng swyddogion Cyngor Gwynedd ac Esgobaeth Llanelwy, ymhle cafwyd cadarnhad gan yr Esgobaeth eu bod bellach yn derbyn ei bod yn briodol, yn

yr achos yma, fod yr ysgol newydd yn cael ei hyrwyddo gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Eglwys yng Nghymru yn parhau i wrthwynebu'n gryf y cysyniad ac yn dadlau nad yw'n briodol nac yn gyfreithiol bosib i'r Cyngor, nac unrhyw awdurdod lleol arall, weithredu fel hyrwyddwr ar gyfer cynnig i sefydlu ysgol wirfoddol gyda chymeriad crefyddol ond yn fodlon hepgor yr egwyddor hon yng nghyd-destun y Bala. Mae'r newid safbwynt yma wedi cyfrannu'n sylweddol at feithrin diffyg hyder yn yr Eglwys ymysg nifer o Lywodraethwyr ac Aelodau Lleol yr ardal.

2.4 Cynigwyd pedwar opsiwn mewn perthynas â dyfodol safle Ysgol Beuno Sant. Ar 12 Rhagfyr 2016, derbyniwyd gohebiaeth gan yr Esgobaeth yn cadarnhau'r hyn a gynigwyd yn y cyfarfod, (Atodiad 1), sef:

i. Ymgorffori'r safle o fewn cynlluniau Campws (Ni fyddai hyn yn bosib heb addasu'r rhybudd statudol.)
ii. Trosglwyddo'r safle i eiddo'r Cyngor *
iii. Gwerthu'r safle a buddsoddi unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir o'r gwerthiant yn y Campws. *
iv. Gwerthu'r tir, fyddai'n golygu y byddai derbyniadau cyfalaf o'r gwerthiant yn destun cymal dychwelyd.

**Gydag opsiwn ii. a iii. pe bai'r ysgol yn peidio â bod yn ysgol eglwysig, byddai'n rhaid i'r Cyngor roi'r cyfraniad ariannol neu'r tir yn ôl i'r Esgobaeth.*

2.5 Mae safbwynt yr Eglwys o ran delio gydag adeilad Beuno Sant wedi creu cryn anniddigrwydd ymysg Llywodraethwyr ac Aelodau Lleol ac wedi arwain rhai unigolion i nodi mai diogelu buddiannau adnoddau'r Eglwys yw prif gymhelliant yr Eglwys. Nid yw'r Eglwys yn derbyn hyn ond mae'r safbwynt yma wedi cynyddu'r tensiwn a'r diffyg ymddiriedaeth yn yr Eglwys ymysg rhai trigolion lleol.

2.6 Yng ngoleuni'r trafodaethau a'r datblygiadau hyn, yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cabinet:

*"(G)ohirio'r ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad er mwyn ystyried yr ohebiaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd gan yr Eglwys yng Nghymru ynghyd a'r farn gyfreithiol a dderbyniwyd hefyd. Rhoi amser i swyddogion gynnal trafodaethau lleol pellach"*

## 3. DIWEDDARIAD

3.1 Yn unol â phenderfyniad y Cabinet ym mis Rhagfyr, cynhaliwyd cyfarfod gyda Phenaethiaid, Cadeiryddion Llywodraethwyr ac Aelodau Lleol Y Bala, yn ogystal â chynrychiolydd ar ran Esgobaeth Llanelwy ar 18 Ionawr 2017 er mwyn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ac eglurhad o benderfyniad y Cabinet ym mis Rhagfyr.

3.2 Yn dilyn hynny, ar 24 Ionawr 2017 derbyniwyd gohebiaeth gan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Y Berwyn (Atodiad 2) yn nodi fod yr "ymyrraeth ddiweddar o du'r Eglwys yn tanlinellu'r ofnau gwreiddiol na fydd ysgol gyda statws Eglwysig yn ateb gofynion addysgol Penllyn Edeirnion a rhannau o Uwchaled." Yn yr un ohebiaeth, fe ofynnir, ar ran Llywodraethwyr Ysgol Y Berwyn, i Gyngor Gwynedd gynnal ymgynghoriad pellach i ail edrych ar statws yr ysgol arfaethedig gan nodi "diffyg ymddiriedaeth yn yr Eglwys" fel y prif reswm am hyn. Clowyd yr ohebiaeth gyda'r datganiad a ganlyn:

*"Oni chynhelir ymgynghoriad newydd, bydd yn anodd iawn i ni, sydd wedi arwyddo'r llythyr hwn gefnogi corff cysgodol yr ysgol newydd, gan amddifadu'r corff hwnnw o'n profiad a'n hymroddiad i addysg yr ardal."*

3.3 Yn eu cyfarfod, ar 2 Chwefror 2017, bu i gorff llywodraethu Ysgol Bro Tegid drafod ac ystyried eu safiad presennol ynglŷn â'r cynllun yn Y Bala yn sgil gohebiaeth diweddar llywodraethwyr Ysgol Y Berwyn. Yn dilyn hynny, derbyniwyd llythyr wedi'i lofnodi gan aelodau'r corff yn nodi pryderon ac "ansicrwydd yn lleol ar ddyfodol yr ysgol" yn sgil ymyrraeth ddiweddar yn y broses gan yr Eglwys (**Atodiad 3**). Fel llywodraethwyr Ysgol Y Berwyn, fe ofynnai llywodraethwyr Ysgol Bro Tegid i'r Cyngor

"....gynnal ymgynghoriad newydd fel y gellir ail edrych ar statws yr ysgol newydd gyda'r dymuniad o gael ysgol gymunedol nad yw'n gysylltiedig yn ffurfiol ag unrhyw gorff crefyddol priodol."

3.4 Yn ogystal, ers dechrau mis Ionawr 2017, mae'r Cyngor wedi derbyn 22 gohebiaeth ynglŷn â statws yr ysgol arfaethedig yn Y Bala. Ac eithrio 1 gohebiaeth, mynegir gwrthwynebiad i'r statws Eglwysig ymhob un gohebiaeth. Mae rhai yn pwysleisio eu hawl fel rhieni i ddewis anfon eu plant i ysgolion all-dalgylch er mwyn iddynt dderbyn addysg anenwadol.

3.5 Lansiwyd deiseb gan ymgyrchwyr lleol ym mis Ionawr yn ogystal. Yn y ddeiseb datgenir:

> "Yn dilyn yr anghydfod diweddar rhwng Cyngor Gwynedd ac Esgobaeth Llanelwy ynglŷn â rhai agweddau cyfreithiol ar ffurf y trefniant i greu ysgol gydol oes EGLWYSIG yn Y Bala,
>
> Galwn ar Gyngor Gwynedd i ddiddymu'r Bartneriaeth gyda'r Eglwys yng Nghymru ac i ail-hyrwyddo'r prosiect fel un 'cymunedol', lle na fydd gan yr ysgol newydd unrhyw gysylltiad statudol gydag enwad crefyddol penodol."

Mae'r ddeiseb ar-lein bellach wedi derbyn 364 o lofnodion.

3.6 Mae'r awdurdod wedi'u hysbysu fod deiseb bapur wedi ei harwyddo gan nifer fawr o drigolion lleol yn ogystal, ac mae bwriad iddi gael ei chyflwyno yn ystod cyfarfod y Cabinet ar y 14eg o Chwefror.

3.7 Ar y 25ain o Ionawr, cyhoeddodd yr Eglwys yng Nghymru ddatganiad i'r Wasg i gadarnhau ei hymrwymiad i'r cynllun arfaethedig yn Y Bala – ceir hyd i gopi o'r datganiad yn **atodiad 4**.

**4. YSTYRIAETHAU**

4.1 Mae adran 55 (2) o Ddeddf 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor, fel y cynigydd, weithredu ar y cynnig yn unol â'r hyn a gymeradwywyd neu y penderfynwyd arno, oni bai ei fod yn penderfynu yn unol ag adran 55 (5) :

"....os yw wedi ei fodloni—

(a)y byddai gweithredu'r cynigion yn afresymol o anodd, neu

(b)bod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynigion gael eu cymeradwyo o dan adran 50 neu 51 neu eu penderfynu o dan adran 53, y byddai'n amhriodol gweithredu'r cynigion."

Byddai canfyddiad o'r fath, yn unol ag adran 55 (8), gyfystyr â phenderfyniad i beidio â gweithredu'r cynigion o gwbl, ac ni fyddai modd cau ysgolion Y Bala nac agor y Campws newydd, heb i broses statudol lawn, gan gynnwys ymgynghoriad statudol, gael ei ail gychwyn ac i gynigion newydd gael eu cyhoeddi yn dilyn ymgynghoriad o'r fath.

4.2 Er bod newid wedi bod yn safiad yr Esgobaeth a'u bod bellach wedi datgan cefnogaeth lawn i'r cynllun mae'r ohebiaeth gan eu cyfreithwyr ym mis Medi 2016 wedi achosi cynnydd yn y pryderon lleol ynglŷn â statws yr ysgol newydd ac wedi arwain at ddiffyg hyder yn y bartneriaeth rhwng yr Esgobaeth a Chyrff Llywodraethol Ysgol y Berwyn. Mae hyn i'w weld yn glir o benderfyniad diweddar y mwyafrif o lywodraethwyr Ysgol Y Berwyn i ddatgan diffyg cefnogaeth i'r cynllun trwy wrthod cefnogi unrhyw gorff llywodraethu a sefydlir os yw'n gwasanaethu ysgol eglwysig.

4.3 Pan wneir penderfyniad i sefydlu ysgol a gynhelir newydd, mae'n ofynnol fod yr awdurdod yn sefydlu corff llywodraethol cysgodol neu dros dro cyn ymgorffori'r ysgolion, yn ogystal â chorff llywodraethu parhaol i fod yn weithredol o ddyddiad sefydlu'r ysgol. Mae Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 yn gosod arweiniad mewn perthynas â'r profiad sydd ei angen ar berson cyn y gellir eu penodi'n llywodraethwyr neu'n llywodraethwr dros dro. Nodir yn y rheoliadau:

*"19 (1) Rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am benodi person yn llywodraethwr dros dro roi sylw i'r ffaith ei bod yn ddymunol bod gan y person hwnnw brofiad addas.*

*(2) Mae gan berson brofiad addas at ddibenion paragraff (1)*

*(a) os yw wedi gwasanaethu fel llywodraethwr neu lywodraethwr dros dro ysgol a gynhelir, a*

*(b) mewn achos lle disgwylir i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol sydd wedi'i chau neu sydd i'w chau drosglwyddo i ysgol newydd y mae'r penodiad yn ymwneud â hi, os yw wedi gwasanaethu fel llywodraethwr neu lywodraethwr dros dro yn yr ysgol sydd wedi'i chau neu sydd i'w chau. "*

4.4 Fe welir o'r rheoliadau ei fod yn ddymunol fod gan unrhyw berson sy'n cael ei benodi'n llywodraethwr brofiad o fod wedi gwasanaethu fel llywodraethwr ar yr ysgol sydd i'w chau. Gan ystyried hynny, mae'r datganiad o ddiffyg cefnogaeth llywodraethwyr presennol Ysgol Y Berwyn yn achosi risg sylweddol i allu'r awdurdod i benodi unigolion sy'n cyrraedd y meini prawf/trothwy hwn.

4.5 Yn sgil hynny, gellir dadlau y gallai diffyg cefnogaeth aelodau cyrff llywodraethu presennol Ysgol Y Berwyn fod yn ddatblygiad sydd yn newid yr amgylchiadau i'r fath raddau y byddai'n afresymol o anodd i weithredu'r cynnig.

4.6 Mae'n werth nodi yn ogystal fod Llywodraethwyr Ysgol Y Berwyn, er iddynt ddatgan gwrthwynebiad i'r statws Eglwysig yn ôl ym mis Medi 2015, wedi dangos parodrwydd i gydweithio gyda'r Eglwys a'r Cyngor trwy gynnig y cyfaddawd fod y Cyngor yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth ymhen 2 flynedd i ddyddiad agor yr ysgol. Mae'n glir o ohebiaeth ddiweddaraf y Llywodraethwyr nad yw'r parodrwydd hwnnw i gydweithio gyda'r Eglwys yn bodoli mwyach. Ystyrir y datblygiad hwn fel newid arwyddocaol i'r amgylchiadau ers pan gymeradwywyd y cynnig.

4.7 Mae sicrhau perthynas gryf rhwng yr ysgol a'r gymuned y mae'n ei wasanaethu yn ddyletswydd ar bob llywodraethwr. Heb gefnogaeth llywodraethwyr presennol yr ardal, ni fyddai modd sicrhau cynrychiolaeth o lywodraethwyr yr ysgol uwchradd bresennol ar y corff cysgodol. Heb gynrychiolaeth o'r uwchradd, yn ymarferol, rhagwelir y byddai'r diffyg cynrychiolaeth leol ar y corff yn arwain at wrthwynebiadau cynyddol a diffyg perchnogaeth o'r bwrdd llywodraethu. Fel corff sy'n gyfrifol am bopeth y mae ysgol yn ei gyflawni, ystyrir diffyg cefnogaeth a pherchnogaeth leol o'r bwrdd llywodraethu fel risg sylweddol i lwyddiant yr ysgol.

4.8 O ran sefyllfa cynnwys Ysgol Beuno Sant yn y campws, dylid nodi fod yr Esgobaeth bellach wedi awgrymu 4 opsiwn ar gyfer y safle. Dyma grynodeb o'r pedwar opsiwn:

i. Ymgorffori'r safle o fewn cynlluniau'r Campws
ii. Trosglwyddo'r safle i eiddo'r Cyngor
iii. Gwerthu'r safle a buddsoddi unrhyw arian cyfalaf a gynhyrchir o'r gwerthiant yn y Campws.
iv. Gwerthu'r tir, fyddai'n golygu y byddai derbyniadau cyfalaf o'r gwerthiant yn destun cymal dychwelyd.

4.9 Ni fyddai gweithredu opsiwn i. yn bosib heb addasu ac ail gyhoeddi'r rhybudd. Ni fyddai opsiynau ii. na iii. yn briodol i'r Cyngor ychwaith gan nad oes defnydd wedi ei adnabod ar gyfer safle presennol Ysgol Beuno Sant o fewn y Campws newydd. Yn ogystal, gydag opsiwn ii. a iii. pe byddai'r ysgol yn peidio â bod yn ysgol eglwysig, byddai'n rhaid i'r Cyngor ddychwelyd unrhyw gyfraniad ariannol neu'r tir yn ôl i'r Esgobaeth.

4.10 Byddai derbyn cyfraniad ariannol gydag amod ynghlwm, i'w ad-dalu pe tai'r ysgol yn peidio â bod yn ysgol eglwysig yn risg cyllidol annerbyniol i'r Cyngor.

4.11 Byddai unrhyw newid i'r cynnig presennol yn golygu adolygiad o'r cynnig sydd wedi ei gadarnhau a dilyn proses Adran 55(5). Fodd bynnag, cyn dod i'r casgliad ar y ffordd ymlaen, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn nodi'r angen i gynnal ymgynghoriad gyda chyrff llywodraethu'r ysgolion sydd yn cael eu heffeithio gan y bwriad.

4.12 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu ymgynghori ymhellach â'r cyrff llywodraethu, yn ddarostyngedig i ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, gallai'r Cyngor ddod i'r casgliad y byddai hi'n afresymol o anodd neu'n amhriodol gweithredu'r cynnig. Os deuir i'r casgliad hwn, byddai'r cynnig presennol yn cael ei dynnu'n ôl, ac o ganlyniad, byddai'n rhaid ail gychwyn proses statudol o'r newydd i ad-drefnu'r ddarpariaeth yn nalgylch Y Berwyn.

**5. YSTYRIAETHAU ERAILL**

5.1 Dyma ffactorau a risgiau eraill sydd angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol ohonynt:

i. <u>Buddsoddiad Llywodraeth Cymru</u>: Mae'r cynllun presennol yn buddsoddi £10.27m yn ardal Y Bala, gyda £5.3m o'r swm hwn yn grant gan Lywodraeth Cymru. Noder fod grant Llywodraeth Cymru wedi'i gymeradwyo yn dilyn cyflwyno achos busnes llawn i'r Llywodraeth. Rhaglenwyd y prosesau statudol a'r broses ceisiadau am grant cyfalaf fel eu bod yn cael eu cwblhau a'u derbyn ymhell o flaen llaw dyddiad cychwyn y gwaith adeiladu. Er nad ydym yn rhagweld unrhyw effaith ar ein gallu i gwblhau'r prosiect adeiladu sydd bellach ar droed, yn yr adroddiad nesaf, bydd rhaid cloriannu a chyfarch unrhyw effaith bosib y gall newid yng nghyfeiriad y prosiect ei gael yng nghyd-destun amodau a thelerau'r grant.

ii. <u>Parhad dewis darpariaeth eglwysig yn Ne Meirionnydd:</u> Roedd yr angen i bennu statws cyfreithiol y Campws yn destun ystyriaeth fanwl yn ystod y cyfnod ymgynghori, y cyfnod gwrthwynebu, a'r adroddiad Cabinet dyddiedig 15 Medi 2015. Un o'r rhesymau a'r ffactorau dros ymgynghori ar osod statws Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru), ar y Campws arfaethedig oedd y gyd-ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y dalgylch, sef darpariaeth Wirfoddol a Gynorthwyir, (VA), yn Ysgol Beuno Sant, yn ogystal â'r penderfyniad strategol i sicrhau parhad dewis o ddarpariaeth o fewn ardal ehangach yn Ne'r Sir. Bydd y ffactorau hyn yn parhau fel ystyriaethau wrth i'r Cyngor ystyried y ffordd ymlaen.

**6. CAMAU NESAF**

6.1 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu derbyn yr argymhelliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, yna rhagwelir y bydd:

i. Angen cynnal ymgynghoriad gyda chyrff llywodraethu ysgolion dalgylch Y Berwyn ar yr opsiwn i dynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala rhwng **1** a **15 Mawrth 2017**

ii. Adroddiad pellach yn cael i gyflwyno i'r Cabinet er mwyn adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad a phenderfynu os y dylid tynnu'r cynnig yn ei ôl ai peidio. Yn ddarostyngedig i'r penderfyniad, ceisio caniatâd i ymgynghori'n statudol ar y model dewisedig (amgen).

**7. ARGYMHELLIAD**

Argymhellir ymgynghori â chyrff Llywodraethu ysgolion dalgylch Y Berwyn, ar yr opsiwn i dynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala yn ei ôl, yn unol ag adran 55 (5) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 - gyda'r bwriad i ddychwelyd i'r Cabinet i adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad a chynnig argymhellion o ran y ffordd ymlaen.

**Barn yr Aelodau Lleol**

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Prif Weithredwr:**

"Mae'n amlwg bod y mater hwn yn un cymhleth sydd yn destun teimladau cryf yn lleol.

Wedi dweud hynny, mewn ystyr, mae ffocws y Cyngor yn syml, sef gwireddu'r gwelliant sydd dan sylw i amodau dysgu plant y dalgylch a sicrhau'r adnoddau i fedru gweithredu hynny."

**Y Swyddog Monitro:**

"Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion ( Cymru) 2013 ynghyd a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn gosod fframwaith manwl ar gyfer sefydlu a threfnu darpariaeth ysgolion cymunedol a gwirfoddol. Mae Adran 55 yn

gosod dyletswydd i weithredu ar gynnig sydd wedi ei gadarnhau ond hefyd yn sefydlu'r amgylchiadau ble gellir penderfynu peidio â gweithredu cynnig.  Adroddir ar y rhiniogau yma yn yr adroddiad a'r amgylchiadau sydd yn arwain at yr argymhelliad. Mae'r Cod hefyd yn gosod disgwyliad o ymgynghori gyda chyrff llywodraethol cyn symud i benderfyniad.  Bydd rhaid i'r Cabinet wrth ystyried y mater a dod i gasgliad terfynol gloriannu'r sefyllfa yn y cyd-destun yma.  Rhoddaf unrhyw arweiniad pellach yn y cyfarfod."

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Dylid ceisio datrys y sefyllfa bresennol yn ymwneud a'r ysgol i'w sefydlu yn nalgylch y Berwyn yn ddi-oed, trwy ddilyn trefn briodol.  Dylid anelu i isafu'r risg ariannol, trwy hawlio a defnyddio'r arian grant ar amser, gan osgoi llithriad yn amserlen y prosiect cyfalaf"